Is-orsaf Llandyfaelog
Llandyfaelog Substation

# Croeso i’n digwyddiad

## Hoffem gael eich barn ar ein cynigion cychwynnol ar gyfer is-orsaf newydd ger Llandyfaelog, i’r de o Gaerfyrddin.

Rydyn ni’n credu ei bod hi’n bwysig iawn gweithio gyda phobl sy’n byw ac yn gweithio’n lleol wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau ac rydyn ni eisiau clywed gennych chi. Gallwch ddysgu mwy am ein prosiect, siarad ag aelodau o’r tîm, gofyn unrhyw gwestiynau a rhoi adborth yma heddiw.

Mae’r is-orsaf arfaethedig ger Llandyfaelog yn ymateb i geisiadau cysylltu y mae National Grid Energy Transmission (NGET) wedi’u derbyn ar gyfer De Cymru gan Green GEN Cymru a National Grid Energy Distribution (NGED).

Mae National Grid yn cyflenwi trydan yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon i’r cwsmeriaid rydyn ni’n eu gwasanaethu – ar yr un pryd a gweithio tuag at adeiladu system ynni sy’n lanach ac yn decach ar gyfer y dyfodol. Dydyn ni ddim yn cynhyrchu ynni ein hunain.

Rydyn ni’n berchen ar y rhwydwaith trawsyrru trydan foltedd uchel yng Nghymru a Lloegr ac yn ei gynnal a’i gadw, gan gludo llawer iawn o drydan foltedd uchel o’r man lle mae’n cael ei gynhyrchu i’r man lle mae ei angen. Mae gweithredwyr rhwydweithiau lleol wedyn yn ei ddanfon ar foltedd is i gartrefi a busnesau unigol.

**Diolch am ddod i'n digwyddiad heddiw.**

# Welcome to our event

## We would like your views on our initial proposals for a new substation near Llandyfaelog, south of Carmarthen.

We think it's really important to work with people living and working locally as we develop our plans and we want to hear from you. You can learn more about our project, talk to members of the team, ask any questions and give feedback here today.

The proposed substation near Llandyfaelog is in response to connection requests National Grid Energy Transmission (NGET) has received for South Wales from Green Gen Cymru and National Grid Electricity Distribution (NGED).

National Grid delivers electricity safely, reliably, and efficiently to the customers we serve – all while working towards building a cleaner, fairer energy system for the future. We don’t generate energy ourselves.

We own and maintain the high-voltage electricity transmission network in Wales and England, transporting large amount of electricity at high voltage from where it is generated to where it is needed. Local network operators then deliver it at lower voltages to individual homes and businesses.

**Thank you for coming to today’s event.**








# Beth yw is-orsaf a pham mae ei hangen

**Mae is-orsafoedd yn rhannau hanfodol o'r rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu ac yn sicrhau bod trydan yn gallu cael ei drawsyrru ar wahanol folteddau, mewn ffordd ddiogel a dibynadwy.**

Un o'r prif bethau mae is-orsaf yn ei gwneud yw newid foltedd trydan. Mae angen hyn er mwyn gallu trawsyrru'r trydan ledled y wlad ac yna ei ddosbarthu drwy gymunedau lleol ac i'n cartrefi, ein busnesau a'n gwasanethau cyhoeddus.

Mae gan NGET ddyletswydd gyfreithiol i gysylltu cwsmeriaid â'n rhwydwaith pan fydd cais yn cael ei wneud.

Pan nad oes gan is-orsafoedd presennol y capasiti ar gyfer maint y cysylltiad sydd ei angen, mae'n ofynnol i ni adeiladu un newydd.

Mae'r is-orsaf arfaethedig ger Llandyfaelog yn ymateb i geisiadau cysylltu y mae NGET wedi'u derbyn yn Ne Cymru gan Green Gen Cymru a National Grid Energy Distribution (NGED).





# Ein cynigion

**Bydd y safle arfaethedig yn cynnwys un platfform gyda thri chompownd yr is-orsaf o fewn ei ffiniau: un is-orsaf 400 cilofolt (kV) wedi'i hadeiladu a'i gweithredu gan NGET, a dwy is-orsaf 132 kV lai wedi'u hadeiladu a'u gweithredu gan Green Gen Cymru ac NGED.**

Bydd hefyd yn ofynnol i NGED a Green Gen Cymru wneud cais am ganiatâd cynllunio ar wahân er mwyn gallu adeiladu compowndiau yr is-orsaf arfaethedig ar y safle, yn ogystal â'r cysylltiadau i'r is-orsaf 400 kV arfaethedig.



Is-orsaf Llandyfaelog




# Lleihau effaith ein prosiect

**Wrth i ni ddatblygu'r prosiect, rydyn ni wedi cynnal amrywiaeth o ymchwiliadau tir, arolygon ac asesiadau i lywio ein dealltwriaeth o ardal y prosiect a'i nodweddion. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn lleihau effaith ein prosiect ar y gymuned a'r amgylchedd lleol.**

## Y Dirwedd ac effeithiau gweledol

Rydyn ni wedi cwblhau asesiad o'r effaith ar y dirwedd ac effaith weledol y prosiect a fydd yn sail i strategaeth y dirwedd. Bydd y strategaeth yn cadarnhau sut rydyn ni'n bwriadu lleihau effeithiau'r prosiect ar y dirwedd ac effeithiau gweledol, lle bo hynny'n bosibl. Mi fydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o ein cais cynllunio i Gyngor Sir Gaerfyrddin.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n gofyn am adborth ar ein cynllun arfaethedig i ddarparu sgrin naturiol, sy'n cynnwys ardaloedd o brysgwydd a gwrychoedd newydd, yn ogystal ag atgyfnerthu'r gwrychoedd sydd yno'n barod.

## Effaith ar yr amgylchedd

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau budd net o 10% i fioamrywiaeth. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy amrywiaeth o fesurau, fel creu a gwella cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau a warchodir.

Cynigir ein cynlluniau tirlunio i'n helpu i gyflawni hyn.

Ar hyn o bryd rydyn ni'n edrych ar ffyrdd eraill o gyrraedd ein targed ac rydyn ni'n croesawu eich adborth.



Is-orsaf Llandyfaelog

nationalgrid



# Cefnogi cymunedau lleol

**Rydyn yn credu dylai cymunedau lleol sydd yn profi datblygiad isadeileddau trosglwyddo newydd dderbyn buddion. Dyma rhai syniadau am ba fath o bethau gellir eu cefnogi trwy gronfeydd buddion cymunedol – ond rydyn ni eisiau gwybod eich barn chi.**

Byddwn yn gweithio gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn adnabod y buddion cymunedol bydd yn fanteisiol i chi.

**Darparu gwelliannau amgylcheddol**

**Cefnogi cyflogaeth, addysg, a datblygiad sgiliau**

**Hybu iechyd a lles o fewn y gymuned**

**Buddsoddi mewn isadeileddau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned**

**Lleddfu tlodi tanwydd a mireinio effeithlonrwydd egni**

**Cefnogi cymunedau i ddatgarboneiddio**

# Cyfle i ddweud eich dweud

## Mae ein ymgynghoriad ar ein cynigion cychwynnol am is-orsaf newydd ger Llandyfaelog ar agor tan 11.59pm ar ddydd Mawrth 15 Gorffennaf 2025.

**Hoffem gael eich adborth ar y canlynol:**

- Ein hystyriaethau arfaethedig o ran traffig a mynediad i'r safle adeiladu
- Sut gallem ni leihau effeithiau gweledol y safle a'i effaith ar y dirwedd, er enghraifft drwy sgrinio gyda choed a gwrychoedd
- Sut gallwn ni rhoi hwb i fioamrywiaeth yn yr ardal, gan gynnwys creu cynefinoedd newydd
- Ystyriaethau draenio a llifogydd
- Unrhyw sylwadau eraill ar ein cynigion

## Gallwch roi eich adborth mewn sawl ffordd:

- Llenwi ffurflen adborth ar-lein ar ein gwefan. Ewch i'r wefan drwy sganio'r cod QR isod neu ewch i **Nationalgrid.com/Llandyfaelog**
- Llenwi ffurflen adborth yn y digwyddiad hwn
- Anfon eich sylwadau dros e-bost i **Llandyfaelog@nationalgrid.com**
- Ysgrifennu atom at **FREEPOST NG Llandyfaelog** (dim angen stamp na chyfeiriad ychwanegol).
- Ffoniwch ni ar **0800 915 3595** (Llun-Gwener, 9am–5:30pm).

Mae'r ymgynghoriad cymunedol ar ein cynigion cychwynnol ar gyfer is-orsaf newydd ger Llandyfaelog ar agor tan ddydd **Mawrth 15 Gorffennaf 2025 (11.59pm).**

## Beth nesaf?

Bydd eich adborth yn ein helpu i lunio ein cynlluniau wrth i ni barhau i ddatblygu ein cynigion.

Byddwn yn parhau â'n trafodaethau â thirfeddianwyr ac yn cynnal arolygon a gwaith technegol ac amgylcheddol yn safle arfaethedig yr is-orsaf, ac o'i gwmpas, i roi rhagor o wybodaeth i ni am yr ardal ac i helpu i lywio ein cynlluniau.

Efallai y byddwch chi'n ein gweld ni, a'n contractwyr, yn gweithio ar y safle arfaethedig ac yn y cyffiniau.

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ar ein cynigion a fydd yn helpu i fireinio ein cynigion terfynol cyn i ni gyflwyno cais cynllunio i Gyngor Sir Caerfyrddin ar ddechrau 2026.



